

"Ydw i'n cael defnyddio cyfrifiadur y gwaith at ddefnydd personol?"

Fel arfer, caniateir defnydd personol *achlysurol a synhwyrol* o'r rhyngwrwd ac e-bost *cyn belled nad yw'n amharu ar eich gwaith*.

Ond mae nifer o ffactorau pwysig i'w hystyried:

- nid yw'n dderbyniol i wneud defnydd personol o wefannau megis Facebook, Bebo, MySpace, Flickr neu Twitter, nac i flogio, yn ystod oriau gwaith
- ni ddylid defnyddio cyfeiriad e-bost unigol a roddir i staff at ddibenion personol
- mae gan eich cyflogwr yr hawl i fonitro'ch defnydd o e-bost a'r rhyngwrwd ar offer/systemau'r ysgol; cofiwch fod cofnod yn y system o bob neges a anfonir/derbynnir, a phob gwefan yr ymwelir â hi; nid yw pwysu'r botwm 'dileu' yn cael gwared ar y cofnodion hyn
- peidiwch wneud unrhyw ddatganiad enllibus, neu anfon/edrych ar ddeunydd anwedus neu annymunol (e.e. cynnwys hiliol); gallai arwain at ddiswyddo
- mae'r rheolau yr un fath hyd yn oed os ydych chi'n defnyddio offer cyfrifiadurol y gwaith ym mhreifatrwydd eich cartref

Dylai bod gan eich ysgol **Strategaeth E-Ddiogelwch** a/neu **Bolisi Defnydd Derbyniol** (*Acceptable Use Policy*) sy'n rhestru rheolau'r gweithle yn y maes hwn, ac yn cynnig cyngor. Os nad ydych wedi gweld y Strategaeth/Polisi, gofynnwch i'ch Pennaeth.

Gallwch wynebu camau disgyblu o ganlyniad i ddefnydd amhriodol o'r offer.

Am wybodaeth a chyngor pellach, edrychwch ar daflen wybodaeth UCAC: [Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-dechnoleg](#) neu cysylltwch â swyddfa UCAC i gael copi.